CYNNWYS

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati	TN1
Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau	TN1
■ *Buddiolwyr*	TN1
■ *Setlwyr*	TN1
Incwm o ystadau'r ymadawedig	TN2
■ *Cymynroddion*	TN2
■ *Buddiolwyr gweddill*	TN3
● Buddiannau cyfyngedig	TN3
● Buddiannau absoliwt	TN3
● Buddiannau dewisol	TN3
● Buddiannau olynol	TN3
● Ystadau tramor	TN4
● Treth dramor a dalwyd	TN4

TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflen Gymorth IR270 yn rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth. Mae ar gael o'r Llinell Archebu neu ein gwefan ar www.indlandrevenue.gov.uk.

- *IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's*

Cwblhau'r Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati

Cwblhewch y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati os derbynioch unrhyw incwm yn y flwyddyn hyd 5 Ebrill 2003 o ymddiriedolaeth, setliad neu ystad person ymadawedig. Mae'r Nodiadau hyn yn dweud wrthych beth i'w wneud.

Efallai y gallwch adael y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati yn wag. Os penderfynwch ar ôl darllen y nodiadau ar flychau 7.1 i 7.12 isod, eich bod yn gallu nodi'r holl incwm o ymddiriedolaeth neu setliad yn rhywle arall ar eich Ffurflen Dreth, atebwch 'Do' i Gwestiwn 7 ar dudalen 2 eich Ffurflen Dreth yna nodwch yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.5 ar dudalen 9 pam bod y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati yn wag.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel datganiadau o symiau a dalwyd o ystad person ymadawedig (a baratowyd gan y cynrychiolydd personol).

Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau

■ *Buddiolwyr*

blychau 7.1 to 7.12 Bydd y man lle rydych yn nodi incwm o ymddiriedolaeth yn dibynnu ar y math o ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth Wag

Os mai chi yw buddiolwr ymddiriedolaeth hawl absoliwt (bare trust), (hynny yw un lle mae gennych hawl absoliwt i'r incwm a'r cyfalaf o'r ymddiriedolaeth neu'r setliad), peidiwch â chynnwys yr incwm hwn ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Caiff yr incwm hwn ei drin fel petai'n perthyn i chi ac nid i'r ymddiriedolwyr, a dylai gael ei gynnwys yn y tudalennau ar eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r math o incwm dan sylw.

Buddiant mewn Ymddiriedolaeth Feddiant lle mae'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DG neu'n rhywle arall

Os oedd gennych hawl absoliwt i incwm ond nid i gyfalaf o ymddiriedolaeth neu setliad:

- peidiwch â nodi unrhyw ddifidendau sgrip ar Dudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech eu cynnwys ym mlychau 10.21 i 10.23 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth
- peidiwch â nodi incwm o ffynonellau tramor ar Dudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech ei gynnwys ar y Tudalennau Tramor os ydych yn preswylio yn y DG
- dylech eithrio unrhyw incwm gros (hynny yw, heb unrhyw dreth wedi'i didynnu) o ymddiriedolaeth a dderbynioch, fel incwm o eiddo. Yn lle hynny, dylech ei gynnwys ar dudalennau eich Ffurflen Dreth sy'n delio â'r ffynhonnell arbennig honno o incwm
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 incwm y talwyd treth arno **ar y gyfradd sylfaenol (22%):**
  - ym mlwch 7.4 yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo
  - ym mlwch 7.5 y Dreth Incwm a ddidynnwyd
  - ym mlwch 7.6 yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.7 i 7.9 incwm y didynnwyd treth ohono, neu sydd â chredyd treth, **ar y gyfradd is (20%)**:
  - ym mlwch 7.7 yr incwm gwirioneddol y mae hawl gennych iddo
  - ym mlwch 7.8 y dreth a ddidynnwyd neu'r credyd treth a
  - ym mlwch 7.9 yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlwch 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth **ar y gyfradd ddifidend (10%)**:
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol y mae gennych hawl iddo
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy').

Bydd yr ymddiriedolwr yn gallu dweud wrthych pa fathau o incwm a dderbyniwyd ar eich rhan.

Ymddiriedolaethau Dewisol lle mae'r ymddiriedolwyr yn byw yn y DG

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm o ymddiriedolaeth neu setliad, ac os yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DG at ddibenion treth, dylech ddatgan yr holl incwm a dderbynioch gan yr ymddiriedolwyr yn y flwyddyn:

- nodwch ym mlwch 7.1 yr incwm gwirioneddol a dderbyniasoch
- nodwch ym mlwch 7.2 y Dreth Incwm a ddidynnwyd
- nodwch ym mlwch 7.3 yr incwm cyn treth ('y swm trethadwy').

Gallwch gael y ffigurau hyn o'r daleb treth a ddarperir gan yr ymddiriedolwyr.

Ymddiriedolaethau Dewisol lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DG

Os nad oedd gennych hawl absoliwt i incwm gan ymddiriedolaeth neu setliad, ac os nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DG at ddibenion Treth Incwm, dylech ddatgan yr holl incwm a dderbynioch gan yr ymddiriedolwyr yn y flwyddyn. Fodd bynnag, ni ddylech nodi unrhyw beth yn y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, cwblhewch flwch 6.5 ar y Tudalennau Tramor. Os byddwch am wneud cais am ryddhad o dan Gonsesiwn Allstatudol B18 cysylltwch â'r:

Centre for Non-Residents (Non-resident Trusts)
St John's House
Merton Road
Bootle, Merseyside
England
L69 9BB.

Ffôn: 0151 472 6000

■ *Setlwyr*

blychau 7.1 i 7.12 Mae setliad yn cynnwys ymddiriedolaeth, cyfamod, gwaredu, trefnu neu drosglwyddo asedion. Os ydych wedi darparu arian ar gyfer setliad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel arfer caiff yr incwm ei drin fel eich un chi at ddibenion treth. Gall hyn fod yn gymwys:

- os gallwch chi neu eich cymar elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o gyfalaf neu incwm y setliad, **neu**

SA107(Nodiadau) (Cymraeg)

- os telir cyfalaf neu incwm y setliad i, neu er lles, eich plentyn neu lysblentyn dibriod tra bod y plentyn hwnnw o dan 18 oed neu mae'r incwm yn eiddo i'r fath blentyn, **neu**
- os yw'r setliad yn gyfamod ar gyfer taliadau i elusen (ni ddylai'r cyfamod hwn fod yn fwy na thair blynedd), **neu**
- os ydych chi neu eich cymar wedi derbyn benthyciad neu ad-daliad o fenthyciad gan ymddiriedolwyr y setliad.

Os credwch y gallai un o'r sefyllfaoedd hyn fod yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR270: Trusts and settlements - income treated as the settlor's.*

Mae'r ffordd rydych yn cynnwys yr incwm ar eich Ffurflen Dreth yn dibynnu ar y math o setliad. Os yw'n ymddiriedolaeth lle y gallwch chi neu'ch priod elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu'r incwm, mae'n dibynnu p'un a yw dogfen yr ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i'r incwm o'r ymddiriedolaeth.

Buddiant mewn Ymddiriedolaeth Feddiant lle mae gennych hawl absoliwt i'r incwm

Os oedd gennych hawl absoliwt i incwm ond nid cyfalaf o ymddiriedolaeth neu setliad, yna dim ond Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth, a ddidynnir wrth gyfrifo'ch incwm sy'n rhaid eu hystyried fel eich rhai chi - mae'r holl incwm arall eisoes yn perthyn i chi.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer blychau 7.1 a 7.12 o dan y pennawd 'Buddiant mewn Ymddiriedolaethau Meddiant' ar gyfer 'Buddiolwyr' ar dudalen TN1.

Mae'r arweiniad ar *Daflen Gymorth IR270* yn dweud wrthych sut i gyfrifo'r hyn i'w gofnodi ar gyfer Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth:

- peidiwch â nodi manylion ar gyfer incwm o dramor a ddefnyddir i gwrdd â threuliau'r ymddiriedolaeth ar y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar F2 ar y Tudalennau Tramor.
- ar gyfer incwm y DG a ddefnyddir i gwrdd â threuliau'r ymddiriedolaeth, bydd angen i chi gofnodi incwm difidendau'r DG ym mlychau 10.15 i 10.17. Nodwch incwm arall o'r DG ym mlychau 13.1 i 13.3 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth.

Setliadau lle y gallwch chi neu'ch priod elwa ar unwaith neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu'r incwm a lle nad oedd gennych hawl absoliwt i'r incwm

Os nad yw dogfen yr ymddiriedolaeth yn rhoi hawl absoliwt i'r incwm i chi, nodwch incwm gwirioneddol yr ymddiriedolaeth heb ddidynnu Treuliau Rheolaeth yr Ymddiriedolaeth:

- peidiwch â nodi manylion am incwm tramor ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar F2 y Tudalennau tramor
- nodwch ym mlychau 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth ar y gyfradd ddifidend (10%)
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.4 i 7.6 yr holl incwm arall gan gynnwys incwm o gynilion a drethwyd ar y gyfradd is
  - ym mlwch 7.4 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.5 rhowch y Dreth Incwm a ddidynnwyd
  - ym mlwch 7.6 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')

Setliadau eraill

Ar gyfer pob setliad arall (lle na fyddwch chi na'ch priod yn gallu elwa'n syth neu yn y dyfodol o'r cyfalaf neu incwm ymddiriedolaeth) nodwch y swm sydd i'w drin fel eich incwm chi at ddibenion treth. *Bydd Taflen Waith IR270* yn eich helpu i gyfrifo'r symiau:

- peidiwch â nodi manylion am incwm tramor ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. Yn lle hynny, dylech gynnwys difidendau tramor ym mlwch 6.2 ar F1 ac incwm tramor arall ym mlwch 6.4 ar F2 y Tudalennau Tramor
- nodwch ym mlychau 7.10 i 7.12 yr incwm sydd â chredyd treth **ar y gyfradd ddifidend (10%):**
  - ym mlwch 7.10 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.11 rhowch y credyd treth
  - ym mlwch 7.12 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')
- nodwch ym mlychau 7.4 hyd 7.6 yr holl incwm arall gan gynnwys incwm o gynilion a drethwyd ar y gyfradd is ac incwm a dalwyd gan ymddiriedolwyr i'ch plentyn:
  - ym mlwch 7.4 rhowch yr incwm gwirioneddol
  - ym mlwch 7.5 rhowch Dreth Incwm y DG a ddidynnwyd (os o gwbl)
  - ym mlwch 7.6 rhowch yr incwm cyn treth (y 'swm trethadwy')

blwch 7.12A Os ydych wedi cynnwys incwm o ymddiriedolaethau setliadau lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DG at ddibenion treth, mewn unrhyw fan yn eich Ffurflen Dreth, yna ticiwch 7.12A.

Incwm o ystadau'r ymadawedig

Diffiniadau

Defnyddir rhai geiriau ac ymadroddion sydd ag ystyr arbennig yn y nodiadau sy'n dilyn:

Cynrychiolwr personol - person a benodwyd naill ai fel ysgutor (er mwyn gweithredu'r dymuniadau a fynegwyd yn yr ewyllys) neu weinyddwr (er mwyn trafod yr ystad yn absenoldeb ewyllys)

Ystad - arian ac asedion eraill y person sydd wedi marw

Cymynrodd - naill ai swm penodol o arian neu ased penodol sy'n cael ei adael i berson penodol o dan amodau ewyllys

Gweddill - y rhan honno o'r ystad sy'n weddill ar ôl talu dyledion, treuliau, trethi a chymynroddion

Buddiolwyr Gweddill - person sydd â hawl i'r cyfan neu i ran yng ngweddill yr ystad

Cyfnod gweinyddu - y cyfnod sy'n rhedeg o'r diwrnod yn dilyn y dyddiad marwolaeth tan y dyddiad pan fydd yr ystad yn barod i'w dosbarthu i'r buddiolwyr gweddill.

Cymynrodd

Os mai cymynrodd sy'n cynnwys swm penodol o arian neu ased penodol oedd yr hyn yr oedd hawl gennych i'w dderbyn o'r ystad, ni fyddwch yn talu treth arni ac nid oes rhaid llenwi blychau 7.13 i 7.31 ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati.

Os cawsoch log ar eich cymynrodd, oherwydd iddi gael ei thalu'n hwyr, dylech gynnwys y llog hwnnw ym mlwch 10.14 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Hawlwyr Hawliau Cyfreithiol yr Alban

Os hawlioch eich hawliau cyfreithiol mewn ystad yn yr Alban, caiff eich budd fel arfer ei dalu ynghyd â llog. Dylid cynnwys y llog hwnnw ym mlwch 10.14 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Os oedd eich cymynrodd yn cynnwys ased sy'n rhoi incwm, dylech nodi'r incwm yn y blychau ar gyfer y math hwnnw o incwm ar y Ffurflen Dreth (ac nid ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati). Er enghraifft, os oedd eich cymynrodd yn cynnwys cyfranddaliad mewn cwmni, ac roedd y cwmni hwnnw wedi talu difidend, dylech nodi'r incwm difidend ym mlychau 10.15 i 10.26 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth. Os oedd eich cymynrodd yn cynnwys eiddo ac rydych yn derbyn rhent o osod yr eiddo hwnnw, dylech ateb cwestiwn 5 ar dudalen 2 ar eich Ffurflen Dreth a chwblhau tudalennau Tir ac Eiddo, fel y bo'n briodol.

Buddiolwyr gweddill

Os oes hawl gennych i'r cyfan neu i ran yng ngweddill yr ystad, dylech ateb y ddau gwestiwn sy'n dilyn. (Os ydych yn fuddiolwr gweddill dwy neu fwy o ystadau, atebwch y cwestiynau hyn ar wahân ar gyfer pob ystad.)

1. A dderbynioch unrhyw beth (incwm, cyfalaf neu ased) o'r ystad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2003? Do ☐ Naddo ☐
2. A ddaeth y cyfnod gweinyddu i ben yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2003? Do ☐ Naddo ☐

Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r ateb i gwestiwn 2 gofynnwch i'r cynrychiolwyr personol neu'r cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran y cynrychiolwyr personol.

Os ateboch 'Naddo' i'r ddau gwestiwn, yna dylech ateb 'Naddo' i gwestiwn 7 ar dudalen 2 eich Ffurflen Dreth. Does dim angen cwblhau blychau 7.13 i 7.31 ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati. (Ond os derbynioch incwm o ymddiriedolaeth neu setliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2003 dylech ateb 'Do' i gwestiwn 7 a dilyn y cyfarwyddiadau am flychau 7.1 i 7.12 ar dudalen TN1.)

Os atebwch 'Do' i'r naill gwestiwn neu'r llall yna:

- gofynnwch i'r cynrychiolwr personol am dystysgrif treth ar ffurflen R185 (Incwm Ystad)
- nodwch ym mlychau 7.13 i 7.31 yr incwm a'r dreth a ddangosir ar ffurflen R185 (Incwm Ystad)
- nodwch enw'r ystad yn y blwch ar gyfer 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 7.32 ar dudalen T2

Problemau

Efallai bydd y cynrychiolwyr personol yn dweud wrthych nad ydynt yn gwybod dim am ffurflen R185 (Incwm Ystad).

Os oedd yr ystad yn fach iawn a chafodd ei dirwyn i ben yn gyflym iawn, efallai na dderbyniodd y cynrychiolwyr personol unrhyw incwm yn ystod y cyfnod gweinyddu. Os felly, ni fydd angen ffurflen R185 (Incwm Ystad) arnoch.

Os derbyniodd y cynrychiolwyr personol incwm yn ystod y cyfnod gweinyddu, dylent fod wedi talu treth ar yr incwm hwnnw ac fe ddylent fod wedi rhannu'r incwm rhwng y buddiolwyr gweddill. Mae'r nodiadau ar gyfer blychau 7.13 i 7.30 yn dweud wrthych sut i gynnwys eich cyfran chi ar y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati, gan ddefnyddio'r ffurflen R185 (Incwm Ystad) y dylai'r cynrychiolwyr personol ddarparu.

Os bydd angen mwy o wybodaeth ar y cynrychiolwyr personol ynglŷn â hyn cyn iddynt rhoi ffurflen R185 (Incwm Ystad), gallant (neu'r cyfreithiwr neu unrhyw gynghorydd proffesiynol arall sy'n gweithredu ar ran yr ystad) gael cyngor trwy alw Llinell Gymorth arbennig ar 0131 777 4030. Mae gwasanaeth y Llinell Gymorth ar gael yn ystod yr oriau canlynol:

08.30 i 17.00 Dydd Llun i Ddydd Iau

08.30 i 16.30 Dydd Gwener.

• Buddiannau cyfyngedig

Os byddwch ond a hawl i dderbyn incwm o'r ystad (er enghraifft, os ydych yn denant oes neu mewn ystad yn yr Alban, yn 'liferenter') mae gennych yr hyn a elwir yn 'fudd cyfyngedig yn y gweddill'.

Oni chwblhawyd y gweinyddu yn y flwyddyn honno, caiff y swm a gawsoch mewn gwirionedd yn 2002-2003 ei drin fel eich incwm am y flwyddyn honno. Os cwblhawyd gweinyddiad yr ystad yn 2002-2003, eich incwm am y flwyddyn honno fydd eich holl incwm sy'n ddyledus i chi na chafodd ei drin eisoes fel eich incwm mewn blynyddoedd cynharach. Dylech ddilyn y cyngor a roddir ar dudalen TN3 o dan y pennawd 'blychau 7.13 i 7.30'.

• Buddiannau absoliwt

Os oes gennych hawl i dderbyn incwm a chyfalaf y gweddill neu gyfran yn y gweddill, mae gennych yr hyn a elwir yn 'fudd absoliwt yn y gweddill'. Os oes gennych fudd absoliwt cewch eich trin fel petaech yn derbyn incwm o'r ystad o dan rai amgylchiadau.

Cyfrifir eich cyfran o incwm yr ystad drwy ddidynnu treuliau a godir ar incwm o'r incwm a dderbynnir gan y cynrychiolwyr personol. Os cawsoch daliad neu daliadau o'r ystad yn 2002-2003, eich incwm am y flwyddyn honno fydd naill ai swm y taliadau a gawsoch neu'r incwm y gellir ei briodoli i chi am yr holl flynyddoedd (os na chafodd ei drin eisoes fel eich incwm am flynyddoedd cynharach) p'un bynnag yw'r swm isaf.

Os daeth gweinyddiad yr ystad i ben yn 2002-2003, cewch eich trin fel petaech wedi derbyn yr incwm a gododd yn ystod y flwyddyn honno ac unrhyw incwm o'r ystad nad yw eisoes wedi cael ei drin fel eich incwm ar gyfer blynyddoedd cynharach.

Efallai bod incwm a gronnodd yn ystod oes y person ymadawedig ond a dalwyd ar ôl eu marwolaeth wedi cael ei ystyried fel rhan o'u hystad at ddibenion Treth Etifeddiant ac fel incwm ystad at ddibenion Treth Incwm. Os digwyddodd hyn yn yr ystad lle y cewch eich trin fel petaech wedi derbyn incwm, ac rydych yn atebol i dreth ar y gyfradd uwch, mae ryddhad treth arbennig a allai eich helpu. Mae'n llwyddo i leihau swm yr incwm yr ystyrir eich bod yn ei dderbyn o'r ystad. Os bydd y cynrychiolwyr personol wedi rhoi datganiad i chi sy'n cyfeirio at 'ryddhad Adran 699' defnyddiwch y symiau hynny pan fyddwch yn cwblhau eich Ffurflen Dreth. Fel arall, os credwch y gallai hyn fod yn berthnasol i chi, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

• Buddiannau dewisol

Os oes gennych yr hawl i incwm o weddill ystad dim ond am fod y cynrychiolwyr personol wedi arfer disgresiwn o'ch plaid, dylech fod wedi derbyn datganiad o incwm. Nodwch hwn ar eich Ffurflen Dreth.

• Buddiannau olynol

Os bydd y buddiolwr gweddilliol yn marw wrth weinyddu ystad neu os caiff telerau ewyllus (neu reolau diffyg ewyllys) eu hamrywio â chaniatâd y buddiolwr gwreiddiol, bydd rheolau arbennig yn berthnasol. Trethir y buddiolwyr gwreiddiol ar unrhyw incwm a delir mewn gwirionedd iddynt. Caiff buddiolwyr newydd eu trin fel petaent wedi bod yn fuddiolwyr gweddilliol o'r cychwyn - yn amodol ar ddidyniad ar gyfer symiau a dalwyd i'r buddiolwyr gwreiddiol ac a gaiff eu trin fel eu hincwm. Mae hyn yn sicrhau bod pob buddiolwr yn cael ei drethu ar gyfran incwm yr ystad a delir iddynt mewn gwirionedd.

blychau 7.13 i 7.30 Os cewch eich trin fel petaech yn derbyn incwm o ystad, dylech fod wedi derbyn datganiad ar ffurflen R185 (Incwm Ystad) gan y cynrychiolwyr personol. Gan ddechrau gyda'r ffigurau ar y datganiad hwnnw, rhowch swm net:

- incwm a drethir ar y gyfradd sylfaenol ym mlwch 7.13
- incwm a drethir ar gyfradd is ym mlwch 7.16
- incwm a drethir ar y gyfradd ddifidend (neu a ddisgrifir fel cyfradd gyffredin Atodlen F) pan fydd y dreth yn ad-daladwy, ym mlwch 7.19
- incwm a drethir ar y gyfradd sylfaenol pan na fydd y dreth yn ad-daladwy ym mlwch 7.22
- incwm a drethir ar y gyfradd is pan na fydd y dreth yn ad-daladwy, ym mlwch 7.25
- incwm a drethir ar y gyfradd ddifidend (neu a ddisgrifir fel cyfradd gyffredin Atodlen F) pan na fydd y dreth yn ad-daladwy ym mlwch 7.28.

- blwch 7.14 ar gyfer treth cyfradd sylfaenol
- blwch 7.17 ar gyfer treth cyfradd is
- blwch 7.20 ar gyfer treth cyfradd ddifidend ad-daladwy
- blwch 7.23 ar gyfer treth cyfradd sylfaenol nad yw'n ad-daladwy
- blwch 7.26 ar gyfer treth cyfradd is nad yw'n ad-daladwy
- blwch 7.29 ar gyfer treth cyfradd ddifidend nad yw'n ad-daladwy

Ym mlychau 7.15, 7.18, 7.21, 7.24, 7.27 a 7.30 nodwch y symiau trethadwy, hynny yw, y symiau net ynghyd â'r dreth.

• Ystadau tramor

Ystad tramor yw un lle nad yw incwm yr ystad wedi dwyn treth lawn y DG am nad yw'r cynrychiolwyr personol yn preswylio nac fel arfer yn preswylio yn y DG neu am fod y person ymadawedig wedi marw yn ei breswylfan sydd y tu allan i'r DG a daeth incwm tramor i'r ystad. Os ydych wedi derbyn incwm o'r gyfryw ystad, dylech nodi'r swm cyfan ym mlwch 7.13 **ac** ym mlwch 7.15. Peidiwch â nodi unrhyw ffigur ym mlwch 7.14 ar gyfer treth a ddidynnwyd. Fodd bynnag, os codwyd Treth Incwm y DG ar yr ystad dramor, bydd angen i swm yr incwm a nodwyd ym mlychau 7.13 a 7.15 gael ei leihau yn gyfatebol gan y swm canlynol:

$$\frac{\text{swm net yr incwm sydd wedi dwyn treth yn y DG}}{\text{cyfanswm incwm yr ystad llai treth yn y DG}} \times \text{cyfanswm incwm yr ystad cyn treth yn y DG}$$

Dylech dynnu'r swm uchod o'r ffigur i'w nodi ym mlychau 7.13 a 7.15.

• Treth dramor a dalwyd

blwch 7.31 **Os derbyniasoch incwm sy'n drethadwy yn y DG ond sydd hefyd wedi cael ei drethu mewn gwlad dramor, efallai y bydd hawl gennych wneud cais am gredyd ar gyfer y dreth dramor a dalwyd wrth gyfrifo eich rhwymedigaeth treth yn y DG. Gelwir hyn yn 'rhyddhad credyd treth'.**

Bydd rhyddhad credyd treth fel arfer yn fuddiol, ond os **nad** ydych am wneud cais amdano, gallwch ddidynnu'r dreth dramor a dalwyd ar eich incwm yn lle hynny. **Ni allwch wneud cais am ryddhad credyd treth a didyniad ar gyfer yr un eitem o incwm.**

Nodwch ym mlwch 7.31 gyfanswm y dreth dramor a dalwyd **nad** ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth amdani.

Os ydych **am** wneud cais am ryddhad credyd treth, cwblhewch y Tudalennau Tramor, a gadewch flwch 7.31 yn wag.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.